

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 14eg o Orffennaf 2015.

1. Presennol OP Huws (Cadair), Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts (Llanllyfni); Iwan Lloyd Williams, Justin Davies, Barry Bracegirdle, Nerys Williams (Penygroes); Sharon Wynne Jones, Dafydd Glyn Owen (Talysarn); Sharon Brooks (eitem 5); Julie Holland (eitem 3); Ben Gregory a Val Williams (eitem 4) / **Ymddiheuriadau** Dyfed Edward (Penygroes/ Cynghorydd Sir); Harry Wyn Owen (Talysarn); Ffion Jones (Nantlle); Eurig Evans (Nebo).

Roedd y Cyngor yn cydymdeimlo gyda Harry Wyn Owen, a D Martin Williams (cynghorwyr Talysarn) am i'r ddau golli brawd yn ystod y mis.

Gofynwyd am benderfwiad gan y Cyngor i roi'r rheolau sefydlog i'r neilltu ar gyfer eitem 3, a chynnal y drafodaeth yn Saesneg. Pawb yn cytuno.

2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir. Neb yn datgan buddiant.

3. Heddlu (gwadd) Alex Higgins a Mathew Tapping yn gwasanaethu'r ardal hon. Fe holwyd Julie am y sefyllfa bresennol gyda heddweision. Trafodwyd gor-yrru, cyffuriau/cartrefu. Roedd Julie yn annog pobl i adrodd popeth i'r heddlu - dim ots pa mor fychan, ac annog pobl i gysylltu efo crimestoppers. Rhannwyd pryderon am y parcio peryglus wrth y Co-op, a gofynwyd i Alex edrych ar hyn fel mater i'r Heddlu.

4. Siop Griffiths – Val Griffiths (gwadd) o elusen 'Sylfaen Cymunedol'. Wedi eu commisynu i wneud ymgynghoriad cymunedol ar Siop Griffiths, a'r ty drws nesaf. Pryder am ddirywiad yng nghyflwr yr adeilad. Rhaid bod yn gynialadwy i greu cunllun busnes - cefnogi busnesau twristiaeth, darparu hyfforddiant i bobl ifanc.

5. Sharon Brooks – Parc Solar (gwadd) Cafwyd cyflwyniad gan Sharon o bryderon trigolion Cilgwyn am effaith y parc solar arfaethedig are u cymuned. Rhoddwyd caniatad gan y Cadeirydd i Gynghorwyr Talysarn holi cwestiynnau iddi. Gofynwyd i Gynghorwyr Talysarn gyfarfod a llunio cwestiynnau - gyrru i sylw'r Clerc i'w pasio ymlaen i Gyngor Gwynedd. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd i ofyn os y gallai swyddog Cynllunio ddod i gyfarfod safle, a gofyn am bolisi cynllunio'r Cyngor er mwyn ymateb.

6. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Mehefin. Hefina yn datgan cywirdeb, a Gwyndaf yn eilio.

7. Materion yn codi o'r cyn gofnodion. Dim.

8. Ebst gan yr Is-Gadeirydd Ebst gan Sharon yn datgan nad oedd am barhau yn swydd yr is-Gadeirydd. Gohirio'r drafodaeth tan fis Medi.

9. Adrodd yn ol o unrhyw gyfarfod / is-bwyllgor. OP a Barry wedi mynychu cyfarfod trafod torriadau Cyngor Gwynedd - cynnig i Anwen Davies o Gyngor Gwynedd i ddod i gyfarfod y Cyngor Cymuned. (AnwenDavies@gwynedd.gov.uk 01286 679810). Pa wasanaethau sydd mewn peryg? Pa fanteision sydd i ymuno hefo Cynghorau Cymuned eraill?

10. Cynllunio: Llys Eifion, Penygroes – gosod 2 rhes o baneli ffotofoltaic 8m o hyd C15/0536/22/LL - cytuno; 3 Canolfan Fenter Dyffryn Nantlle – newid defnydd uned diwydiannol i siop dyfrol C15/0498/22/LL - cytuno

Dau gais cynllunio wedi cyrraedd wedi eu cyflwyno ar ol gyrru'r agenda - rhoddwyd caniatad y Cadeirydd i'w trafod - parc solar Cilgwyn / tyrbin gwynt Penygroes - Gofyn i Gyngor Gwynedd beth yw eu polisi ynglyn a solar a thyrbinau. Gofyn i Gyngor Gwynedd ddod i gyfarfod efo'r Cyngor Cymuned. Gofyn i Gyngor Gwynedd am estyniad yn yr amser i ymateb i'r ddau gais.

11. Gohebiaeth.

Cyngor Gwynedd

*Ymatebion i gwynion: llwybr 18, mwsog ar lwybr cyhoeddus, ceffylau ar lwybr cyhoeddus, waliau Talysarn (diolch am yr ymateb, ond pwysu ar y Cyngor i'w trwsio y troy ma). Darllenwyd yr ymatebion.

*Sedd wag Penygroes – caniatad i gyfethol. Gofynwyd i'r Cynghorwyr holi yn lleol, a chyflwyno enwau yng nghyfarfod y Cyngor fis Medi.

*Bin stryd Talysarn - cysylltu efo Dilwyn Lloyd i'w hysbysu am y broblem, a gofyn wrtho gysylltu efo Cyngor Gwynedd.

*Llyfryn Llwyddiannau yn Llwyddo Gwynedd. Er gwybodaeth.

*Gorchymyn Cyngor Gwynedd – Ffordd Bryn Rhedyw. Er gwybodaeth.

Arall

*Parc Cenedlaethol Eryri – Rhaglen Mentora Aelodau. Er gwybodaeth.

*Grantiau Grwp Cynefin. Y Clerc wedi cysylltu i holi os yw'r Cyngor Cymuned yn gymwys i wneud cais - penderfynwyd cyflwyno cais ar gyfer yr hysbysfwrdd busnesau i Benygroes - Justin am gysylltu.

*Gweithdy ar ddyfodol Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Gwynedd **15/7/15**.

*Adroddiad Blybnyddol Yr Ombwdsman. Er gwybodaeth.

*Cymorth Cynllunio Cymru – gweithdy – **3/8/15**. A oes dogfennau neu becyn gwybodaeth ar gael?

*Manylion 'Gwynedd Ni'. Er gwybodaeth.

*Bil Iechyd y Cyhoedd – Darparu toiledau ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio. Er gwybodaeth. Manylion ar y we.

*Murlyn Penygroes. Cefnogi.

*Diweddariad – Post Penygroes. Derbyniwyd cadarnhad fod y post wedi ail-agor.

*Cylchgrawn Clerks and Councils Direct. Ar y bwrdd.

12. **Gwefan.** Gwybodaeth am y tri a wahoddwyd i'r Cyngor i'r cyfarfod - heddlu, parc solar, Siop Griffiths.

13. **Goleuadau Nadolig.** Y Clerc wedi archebu.

14. **Materion Pentrefi.** Talysarn torri llwybr Trim Track - diolch am dorri, gofyn i dorri'r ochr arall hefyd; gofyn i symud arwydd 30mya yn nes am Benygroes - yn y lle anghywir - ddim i'w weld nes ar ol y troead; Llwybr 15 Boncan Eithin – angen defnyddio chwythwr ar y darn llechi a torri mwy ar y fynedfa; Gwair wedi ei dorri o'r parc BMX a'i adael wrth y Trim Track; Bin wrth ymyl y maes parcio - cysylltu efo Dilwyn Lloyd. Penygroes coed yn y cae yng nghefn Trem yr Wyddfa tu ol i Poveys angen eu torri - holi'r Cyngor beth sydd wedi digwydd i'r gwaith oedd wedi ei gynllunio i wella'r tir yma? Beth am yr arian a oedd wedi ei glustnodi? Holi Robin Perkins, Cyngor Gwynedd am arwydd mynediad beics wrth gylchfan Poveys, Penygroes. Tyfiant glaswellt a drain ar Hen Lon i Penygroes; Gwneud cais i gael de-fibrilator ym mhentref Penygroes ar gael i'r cyhoedd - cysylltu efo'r Awdurdod Iechyd i ofyn - copi i Gyngor Gwynedd - nodi cartref Plas Gwyn, a gofyn os oes modd iddo fod ar gael i'r cyhoedd? Problem o tipio slei bach yn Pwll Budr, Penygroes - gofyn am arwydd yno, a CCTV. Problem wedi bod yn yr ardal hon am beth amser; Map busnesau Penygroes - rhestr ddim digon diweddar - Justin am holi; Taflen baw ci - y Cyngor efo arian i argraffu; Pryder am gyflwr y Fic - cysylltu efo Dyfed Edwards / Alun Ffred i weld Walis George yn Cynefin i roi pwysau i wneud rhywbeth i wella'r sefyllfa, ac agor trafodaeth ar ddyfodol yr adeilad. Peryg bod yr adeilad yn dirywio, a byddwn yn colli adnodd yn y pentref. 11 mis ar o lar y les; Trafod mis nesaf rhoi goleuadau beics drwy'r heddlu i ysgolion yr ardal i gyd, yn enw Elwyn Jones-Griffith. Llanllyfni cerrig ar goll o'r wal ar y bont sydd ar y llwybr rhwng Penygroes a Llanllyfni.

15. **Llwybrau a Mynwentydd.** Prosiect ymestyn MacPelah – diweddariad. Hysbys yn cael ei roi yn y papur lleol. Iwan am holi Arwel am gynllun 'spec' penodol i'r gwaith. Cytundeb pori wedi ei ddychwelyd i'r Cyngor a'i lofnodi - anfoneb rhent i'w yrru i'r ffermwr am y cyfnod Ionawr 2014 i Rhagfyr 2014 ; Cais i dorri brigau coeden St Rhedyw - cytuno i berchennog y ty i'w torri ar yswiriant ei hun; Cais am fedd cadw mewn lle penodol yn y fynwent, ddim yn nhrefn y beddrodau. Y bedd yn y rhes nesaf, yn agos i'r llwybr. Hyn yn groes i reolau mynwentydd y Cyngor, ond penderfynwyd caniatáu o dan amgylchiadau arbennig y cais hwn.

16. **Materion yn ymwed a'r heddlu.** Dim.

17. **Materion ariannol.**

***Taenlen i'w chymeradwyo.** Cymeradwyo.

***Biliau i'w talu** – A Johnson ffon/rhyngwyd £25; A Johnson – derbynebaw; Neil Broda £2940. Derbyn.

***Ceisiadau am Arian** Dim cais y mis hwn.